TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Cyflwyniad i Dylino'r Corff



**Yn gryno**Bydd y cwrs undydd hwn yn cyflwyno’r theori y tu ôl i dylino’r corff a’r technegau ar gyfer tylino’r corff gan diwtor profiadol iawn.

Gall y cwrs hwn eich helpu i symud ymlaen i gyrsiau eraill neu gall ein staff proffesiynol helpu i'ch cefnogi a'ch arwain yn eich gyrfa ar ôl cwblhau.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...Unrhyw un sydd eisiau addasu eu gyrfa, dysgu sgiliau tylino'r corff newydd neu newid gyrfa'n llwyr. Mae'r cwrs hwn ar gael i fyfyrwyr neu rieni sy'n gweithio

...Therapyddion ac Ymarferwyr Harddwch sy’n ystyried datblygu eu set sgiliau ym maes Tylino Corff Holistaidd

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...Adweithegwyr sy’n ystyried ymuno â chwrs Therapïau Cyflenwol yn Coleg Gwent ym mis Medi.

...Dysgwyr sydd â diddordeb mewn ymuno â’r cwrs HND mewn Gofal Iechyd Cyflenwol (gyda Statws Ymarferydd) yn Coleg Gwent ym mis Medi.

...Darpar-fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn astudio cwrs rhan-amser mewn Tylino’r Corff yn Coleg Gwent

...Nyrsys ac Ymarferwyr Gofal Iechyd sydd â diddordeb mewn ehangu eu sail wybodaeth a’u dealltwriaeth am Dylino’r Corff ... Unrhyw un sydd eisiau addasu eu gyrfa, dysgu sgiliau tylino'r corff newydd neu newid gyrfa'n llwyr. Mae'r cwrs hwn ar gael i fyfyrwyr neu rieni sy'n gweithio

**Cynnwys y cwrs**

Yn ystod y cwrs, byddwch chi’n:

Trafod gweithdrefnau ymgynghoriad â chleient, cydsyniad a chynllunio triniaeth
Adnabod esgyrn a chyhyrau (ac anatomeg a ffisioleg gysylltiedig)
Darparu techneg tylino’r cefn syml

Nodi gwrtharwyddion, gwrth-weithredu ac osgoi croeshalogi

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn ond mae diddordeb yn y pwnc yn hanfodol. Byddwch chi’n gweithio gydag eraill yn yr ystafell ddosbarth a bydd disgwyl i chi fod yn fodel ar gyfer triniaeth hefyd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**Dewch i'n cyflwyniad i gael rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn ac unrhyw rai pellach y gallai fod gennych ddiddordeb ynddynt.